


# Tymor yr Haf (i) 2019 — Blynyddoedd 1 a 2

YSGOL GYMRAEG BRYN Y MÔR — CADW IAITH CADW GWLAD

## Thema'r hanner tymor yw: Un Tro...

## Dyma ein syniadau ar gyfer y tymor!

**Datblygiad Creadigol**

- Canu a pherfformio ystod o ganeuon yn ymwneud â'r thema.
- Dewis deunyddiau priodol ar gyfer tasgau creadigol a dysgu sut i wneud uniadau, rhannau symudol a mecanweithiau er mwyn creu gwahoddiad.

**Datblygiad Mathemategol**

- Ymarfer cyfrif, darllen, ysgrifennu a threfnu rhifau hyd at 100 o leiaf.
- Ymarfer a gwella sgiliau adio, tynnu i ffwrdd, lluosi a rhannu.
- Defnyddio arian, ymarfer sgiliau mesur cyn-hwysedd a datblygu ein sgiliau datrys problem.
- Chwarae llawer o gêmau mathemateg pen.

**Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu**

- Creu cornel chwarae byd bach 'Un Tro...'a mwynhau actio ac ail- ddweud straeon o bob math.
- Dal ati i ddatblygu ein sgiliau darllen.
- Darllen a gwrando ar amrywiaeth o straeon.
- Mwynhau ysgrifennu mewn amryw o ddulliau, a dysgu sut i ysgrifennu **gwahoddiad ffurfiol ac ail-ddweud stori**.
- Parhau i ymarfer ein sgiliau sillafu a dysgu ffurfio llythrennau yn gywir.

Bydd gwaith cartref mathemateg ar nos Iau neu nos Wener. Rhaid i ni ei ddychwelyd ar ddydd Llun. Bydd geirfa i'w dysgu ar ddydd Gwener a byddwn yn cael prawf sillafu bach ar y dydd Gwener canlynol. (Blwyddyn 2)

**Cofiwch edrych yn adran y plant – tudalennau dosbarth ar wefan yr ysgol am fwy o fanylion!**
**www.yggbrynymor.co.uk**
**Dilynwch ni ar 'trydar' hefyd!**
**@YGGBrynymor1**

**Addysg Grefyddol: (Tymor yr Haf)**

Astudio Stori Joseff o'r Beibl a Stori 'Yr Adar Bach', sef stori dradodiadol Fwslemaidd.

**Sgiliau Cymhwysedd Digidol:**

- Parhau i ddatblygu ein sgiliau codio.
- Dysgu sut i anfon e-bost.

**Datblygiad Corfforol**

- Parhau i ddatblygu ein ffitrwydd ac ymarfer sgiliau athletau.
- Datblygu sgiliau trin pêl.
- Ymarfer sgiliau llawdriniol manwl ar ein bwrdd bysedd prysur.

**Datblygiad Personol a Chymdeithasol**

- Parhau i drafod ymddygiad da a drwg.
- Mwynhau cyfleoedd dysgu newydd a gwerthfawrogi gwaith ein gilydd.

**Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd**

- Dysgu am briodweddau deunyddiau wrth greu gwahoddiadau.